

## PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 17 RHAGFYR 2019

Yn Cynghorydd Howells(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Henshaw, Parkhill, Robson a/ac Sattar

### 1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Hill-John.

### 2 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

### 3 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 ac 16 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitemau hyn.

PENDERFYNWYD: y câi'r cyhoedd eu gwahardd tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried.

### 4 : ARENA DAN DO

Hysbyswyd yr Aelodau y bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y broses gaffael i sicrhau consortiwm datblygwyr/gweithredwyr i ddarparu arena dan do amlbwrpas newydd i 15,000, ym Mae Caerdydd. Bydd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gaffael Canolfan y Ddraig Goch (RDC) ac yn ystyried strategaeth ariannol newydd fel rhan o'r broses gaffael fel rhan o'r un amlen ariannol y cytunwyd arni'n flaenorol.

Rhodddwyd cyfle i'r Aelodau ystyried y dull arfaethedig o ddarparu'r arena newydd; y bwriad i gaffael RDC; y strategaeth ariannol newydd arfaethedig; unrhyw risgiau i'r Cyngor; y llinell amser a'r camau nesaf; a'r argymhellion i'r Cabinet.

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r cefndir i'r eitem hon.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway, Aelod Cabinet – Buddsoddi a Datblygu, Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, swyddogion o'r adran Datblygu Economaidd, Christopher Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, Kyle Godfrey – Cyfrifydd y Prosiect a Mark Calverley, Bevan Brittan LLP. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwr i roi cyflwyniad.

Cafodd Aelodau wahoddiad i wneud sylwadau, gofyn cwestiynau neu geisio eglurhad pellach am y wybodaeth a dderbyniwyd. Bu'r Pwyllgor yn trafod y mater hwnnw'n llawn.

CYTUNWYD – y bydd y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i gyfleu sylwadau'r pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 5 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 ac 16 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitemau hyn.

PENDERFYNWYD: y câi'r cyhoedd eu gwahardd tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried.

## 6 : AILDDATBLYGU LLANRHYMNI

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar gynigion datblygu yn ward Llanrhymini. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ar 19 Rhagfyr 2019 yn nodi'r angen i wella cysylltedd trafnidiaeth yn Llanrhymini ac yn cyflwyno strategaeth ddatblygu i alluogi hyn. Bydd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i farchnata tir sy'n eiddo i'r Cyngor yn yr ardal i'w waredu ac yn ceisio cael awdurdod i ymrwmo i Gytundeb Pennaeth Telerau i alluogi cyflwyno cynigion.

Wrth ystyried yr eitem hon, byddai cyfle i Aelodau'r Pwyllgor archwilio cynigion i gynyddu cyflogaeth drwy wella cysylltedd trafnidiaeth a datblygu cyfleoedd cyflogaeth lleol; y cynllun datblygu a'r uwchgyllun dangosol; adeilad newydd arfaethedig ar gyfer chwaraeon awyr agored; sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â strategaeth ddiwydiannol ehangach Dwyrain Caerdydd; unrhyw risgiau i'r Cyngor; y llinell amser a'r camau nesaf; a'r argymhellion i'r Cyngor.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y weinyddiaeth yn pennu rhaglen bolisi ac ymrwymadau cyflawni o'r enw 'Uchelgais Prifddinas', a oedd yn sefydlu blaenoriaethau allweddol y Cabinet ac yn amlinellu rhaglen weithredu, gan gynnwys ymrwymadau i gynorthwyo pobl i gael gwaith, creu swyddi a dileu rhwystrau i waith.

Ym mis Hydref 2019, cymeradwyodd y Cabinet strategaeth ddiwydiannol dwyrain Caerdydd a bwysleisiodd yr angen i wella cysylltedd trafnidiaeth fel allwedd i fynd i'r afael â diweithdra a thlodi yn yr ardal. Roedd y Strategaeth yn cyfeirio at yr angen am bont newydd yn cysylltu Llanrhymini â'r A48.

Ar 19 Rhagfyr 2019 bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad i gyflwyno strategaeth ddatblygu gyda'r nod o gyflwyno pont a chyswllt ffordd newydd i'r A48. Bydd y cynigion hefyd yn cynnwys adeilad newydd ar gyfer chwaraeon awyr agored, pont droed a beic, defnydd cyflogaeth, tai a gwelliannau amgylcheddol. Mae'r adroddiad i'r Cabinet yn ceisio cymeradwyaeth i farchnata tir sy'n eiddo i'r Cyngor i'w waredu er mwyn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf i dalu costau'r bont a'r ffordd gyswllt ac yn ceisio awdurdod i ymrwmo i Gytundeb Pennaeth Telerau i alluogi gweithredu'r cynigion.

Gwahoddwyd y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd i roi cyflwyniad ar y cynigion. Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Bu'r Pwyllgor yn trafod y cynigion.

CYTUNWYD – y bydd y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i gyfleu sylwadau'r pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

7 : BLAENGYNLLUN GWAITH ION-EBRILL 2020.

Nodwyd y Blaengynllun Gwaith Ionawr i Ebrill 2020.

8 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau bryd.

9 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 16 Ionawr 2019.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.15 pm